## PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Iau, 8 Mehefin 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Cynghorwyr**: | O.S.Davies, J.Jones, A.R.Lockyer, A.Lodwig, P.D.Richards, M.Spooner, D.Thomas, A.R.Aubrey a/ac H.Davies |
| **Ymddiheuriadau’r Cynghorydd** | H.C Clarke a/ac S. Rahaman |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | J.Hodges, C.Howard, A.Jarrett, S.Waite, C.Frey-Davies, N.Jones, T.Rees, M.Selby, H.Short, V.Smith a/ac P.Chivers |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Llewelyn, J.Hale a/ac S.Harris |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 8 a 9 ar agenda Bwrdd y Cabinet a 9A a 10A ar agenda atodol Bwrdd y Cabinet.

Gan gyfeirio at agenda atodol Bwrdd y Cabinet, dywedodd y Cadeirydd fod gwall yr y pennawd; Dylai Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Drafft Gwasanaeth Cyfiawnder ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2023 ddarllen Dadansoddiad Graddio Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar, dosbarthwyd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid hefyd er hwylustod cyfeirio.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai eitem frys ar Ofalwyr Di-dâl i'w hystyried.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Diweddariad ar Tai Tarian

Rhoddodd Prif Weithredwr Tai Tarian drosolwg i'r aelodau o'r gwaith a wnaed yn 2022-2023 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Mae Tai Tarian yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod i benderfynu ar ofynion tai a'r angen mwyaf.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod Tai Tarian wedi cael eu marcio'n gadarnhaol ym mhob un o'r 45 o elfennau sydd ar gael yng Ngwobr Aur *Considerate Constructor*; Dyma'r tro cyntaf i'r wobr hon gael ei chyflawni yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Holodd yr Aelodau am y berthynas rhwng Cynghorwyr a Tai Tarian. Nid oes unrhyw gynghorwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd ar hyn o bryd ond mae perthynas agos gydag aelodau. Pan fyddant yn gweithio'n lleol, gwahoddir aelodau i ymweliadau safle.

Nododd yr Aelodau fod yr awdurdod yn datblygu Strategaeth Tai newydd a holwyd sut yr oedd Tai Tarian yn gweld y berthynas strategol yn datblygu rhwng y gymdeithas a'r awdurdod lleol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol? Ymatebodd Prif Weithredwr Tai Tarian fod perthynas gref wedi bod erioed ac mae'r gallu i ddatblygu o fewn y fwrdeistref wedi tyfu. Mae'r berthynas wedi datblygu i fod yn un gref iawn. Mae Tai Tarian hefyd yn gweithio'n agos gyda chymdeithasau tai eraill a'r gobaith yw y bydd perthynas agored gyda'r awdurdod lleol, lle byddai ceisiadau yn cael eu hateb yn brydlon.

Diolchodd yr Aelodau i Tai Tarian am eu cefnogaeth a nodwyd y manteision i fasnachwyr lleol sy'n chwilio am waith.

Nodwyd yr adroddiad.

<u>Gwiriad Iechyd Bach Rheoli Risg y Gwasanaethau Plant</u>

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant gynnwys yr adroddiad a gyflwynir i'w ystyried.

Gofynnodd yr Aelodau beth yw'r heriau a'r gwendidau a pha gamau sydd ar waith i gael gwared ar unrhyw wendidau a ble ydynt yn cael eu rhoi ar waith. A oes monitro ar waith a beth yn union yw rôl aelod y cabinet ac a rhoddwyd unrhyw hyfforddiant? Beth sy'n gweithio'n dda a sut?
Cadarnhaodd swyddogion eu bod wrth eu bodd â chanlyniad yr arolygiad ond cydnabuwyd bod lle i wella bob amser. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant yn cael ei hysbysu am bob mater. Cyflwynwyd seminarau ar Ddiogelu ac Amddifadu o Ryddid i aelodau'n ddiweddar. Mae llawer o heriau, ond mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i wella'n barhaus. Yr her allweddol yw ymateb yr awdurdodau i niwed y tu allan i'r cartref teuluol ac roedd swyddogion yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd ar draws y bartneriaeth.

Dywedodd yr Aelodau fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith yr ystyrir bod y sefyllfa cadw staff yn dda, ond nid yw hyn bob amser wedi bod yn wir a gofynnwyd beth sydd wedi newid?

Cadarnhaodd swyddogion fod yr awdurdod yn parhau i fod dan bwysau oherwydd prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol cymwys ond ei fod wedi symud i sefyllfa lle'r oedd cynnydd bach yn y lefelau staffio yn ystod COVID-19. Nododd swyddogion fod cefnogaeth y cyngor i gynnig taliad atodol ar sail y farchnad wedi gwneud gwahaniaeth i recriwtio staff.

Nododd yr aelodau mai dim ond dau weithiwr rhan amser oedd ganddynt ac roedd hyn yn braf gan fod gweithwyr asiantaeth wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Nodwyd y gall sefyllfaoedd newid yn gyflym o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r gwasanaeth yn addasu ar gyfer hyn. Rhoddodd yr aelodau longyfarchiadau am adroddiad anhygoel a dywedwyd bod y gwasanaeth yn un i fod yn falch ohono.

Holodd yr Aelodau am y datganiad yn yr adroddiad ‘Mae rheolyddion wedi gwneud sylwadau ar waith ac agwedd gadarnhaol y gwasanaeth tuag at ymateb i gamau gweithredu gan archwiliadau a'r ffaith eu bod yn ceisio gwelliannau datblygiadol ac yn eu rhoi ar waith yn barhaus' a gofynnwyd pa mor dda mae'r prosesau'n gweithio a sut ydych chi'n gwybod eu bod yn gweithio mor dda?

Ymatebodd swyddogion, er bod pob cyfle yn cael ei gymryd i ddathlu llwyddiant, mae lle i wella o hyd. Mae'r gwasanaeth yn uchelgeisiol, yn wynebu tuag allan ac yn datblygu'n barhaus ac mae hyn wedi cael ei gydnabod ym mhob arolygiad. Mae'r gwasanaeth yn cynnal gwiriadau iechyd ac mae'r gwaith ar y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn dryloyw. Cysylltir â phartneriaid a defnyddwyr y gwasanaeth i gael adborth ar berfformiad. Mae Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni yn cael ei ddatblygu ar draws y rhanbarth, gan ddod â rhieni ynghyd a fydd yn cefnogi rhieni eraill.

Holodd yr aelodau am gyd-destun y term 'drifftio' a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn yn ymwneud ag achosion agored o fewn y Gwasanaethau Plant sy'n symud drwy'r system heb unrhyw waith yn cael ei wneud. Er mwyn lleihau achlysuron o hyn yn digwydd, mae nifer o ddangosyddion o ddrifftio yn eu lle; pa mor aml yr ymwelwyd â phlentyn , gweithgaredd achos, cynlluniau, asesiadau ac ymweliadau, mae hyn yn sicrhau bod achosion agored yn y lle iawn gan ganiatáu i'r gwasanaeth weithio gyda theuluoedd drwy unrhyw angen neu risg a nodwyd. Y nod yw dileu achosion nad ydynt yn derbyn sylw ac nad ydynt yn cael eu gweithio arnynt fel y disgwylir; mae partneriaid ym maes iechyd, addysg a'r heddlu yn cael eu defnyddio fel ffrindiau beirniadol.

Gofynnodd yr Aelodau pryd y cafodd y gofrestr risgiau ei hadolygu ddiwethaf a pha mor rheolaidd ydyw'n cael ei hadolygu? Cadarnhaodd swyddogion mai dim ond yn ddiweddar y mae'r gofrestr risgiau wedi'i diweddaru ac ers cyfarfod â phartneriaid Rheoli Risg i ymgymryd â'r ymarfer hwn mae nifer o risgiau eraill wedi'u cyflwyno i'r gofrestr. Caiff y gofrestr ei hadolygu bob pythefnos drwy'r Grŵp Strategol Arfer Ansawdd ac mae cynlluniau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Mae'r gofrestr risg strategol wedi bod ar waith ers peth amser ond mae wedi cael ei diwygio'n ddiweddar gan fod y ganolfan gorfforaethol wedi diwygio'r arweiniad ar y gofrestr risg strategol.

Nodwyd yr adroddiad.

Rhannu gwybodaeth mewn perthynas â'r Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant gynnwys yr adroddiad a gyflwynir i'w ystyried. Mae'r adroddiad arolygu ar ffurf llythyr yn ganlyniad arolygiad yn nhermau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG).

Amlinellodd swyddogion yr ad-drefnu a gynhaliwyd 10 mlynedd yn ôl pan gydnabuwyd nad oedd yr isadeiledd sydd ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc yn diwallu anghenion. Rhoddwyd system "front-loaded" ar waith i sicrhau bod y system, yr wybodaeth a'r gwasanaethau cymorth diweddaraf ar waith er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc. Esboniodd swyddogion fod ACG yn cael ei ddefnyddio lle mae asesiadau wedi cael eu cwblhau gan y Gwasanaethau Plant, lle roddwyd cymorth i deuluoedd a lle nad yw'r risgiau wedi lleihau'n ddigonol . Mae'r awdurdod felly'n bodloni trothwy i gwrdd â chyfreithwyr i drafod achosion mewn ffordd drefnus i osgoi achos llys. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r awdurdod wedi lleihau  nifer yr achosion sy'n dechrau trefniadau cyn-achos ac achosion llys yn sylweddol. Priodolir y lleihad hwn i drefniadaeth a diwylliant.

Amlinellodd Brif Swyddogion Gwasanaethau Plant y cywirdeb yn system yr awdurdodau, penderfyniad y Gweithiwr Cymdeithasol yw'r penderfyniad i fynd ar drywydd y gyfraith gyhoeddus ond mae'r Prif Gyfreithiwr yn darparu cyngor cyfreithiol.

Rhoddodd swyddogion amlinelliad o'r gweithrediadau lle mae achosion yn cael eu cyflwyno i'r ACG a sut y mae teuluoedd yn cael eu hysbysu. Mae asesiadau arbenigol yn cael eu hystyried yn ystod y broses ACG 16 wythnos ac er mwyn osgoi drifftio, cynhelir adolygiadau canol ffordd. Ar hyn o bryd mae un ar ddeg o deuluoedd yn destun ACG ac mae naw teulu mewn achosion gofal.

Rhoddodd swyddogion drosolwg o Archwiliadau/Cyfweliadau, mae gan y gwasanaeth raglen sicrhau ansawdd wedi'i wreiddio sy'n darparu gwiriad iechyd ac yn sicrhau bod ymarfer yn cael ei gynnal o safon uchel. Rhoddir rhybudd ymlaen llaw i swyddogion o arolygiadau a'r cwmpas/math o achosion sy'n cael eu harchwilio.

Cadarnhaodd swyddogion fod y cyflwyniad o'r arolygiad penodol hwn wedi derbyn adborth da gan arolygwyr.

Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau, pan roddwyd gwybod i'r awdurdod am yr arolygiad ACG, roedd llawer o waith eisoes wedi'i wneud yn fewnol ac felly Castell-nedd Port Talbot oedd yr asiantaeth beilot yng Nghymru. Ar yr un pryd â'r arolygiad, cyflwynwyd canllawiau ACG Cenedlaethol a rhoddwyd y canllawiau newydd ar waith ym mhob proses ACG.

Yn dilyn cyhoeddi'r llythyr adroddiad, mae'r awdurdod yn arwain y ffordd yn genedlaethol ac mae awdurdodau lleol eraill wedi cysylltu â swyddogion yn holi am ein prosesau. Mae swyddogion yn arwain is-grŵp gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol lleol fel y gall swyddogion ymarfer yn gyson mewn ffordd ACG ledled Cymru. Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau fod argymhellion yr arolygiad yn cael eu rhoi ar waith yn hawdd. Mae taflen ACG eisoes wedi'i datblygu ac mae'n cael ei gyflwyno i rieni ar gyfer ymgynghori. Mae llythyr dathlu ar gyfer pan fydd teuluoedd wedi cwblhau ACG eisoes wedi'i roi ar waith. Yr argymhelliad terfynol yw defnyddio iaith glir wrth weithio gyda phobl ifanc a theuluoedd ac mae hyn yn rhywbeth y mae swyddogion eisoes yn gweithio arno.

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau ond dywedwyd ei fod yn adroddiad manwl da ac yn sesiwn friffio dda.

Nodwyd yr adroddiad.

<u>Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Drafft Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2022-2023 (Ailenwyd yn y cyfarfod fel Dadansoddiad Graddio Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar 2022-2023)</u>

Roedd yr eitem hon wedi'i chyhoeddi'n flaenorol o dan y paragraff mynediad at gyfarfodydd ond mae swyddogion wedi cytuno i drafod yr eitem yn gyhoeddus.

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad; dadansoddi a graddio'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid; cadarnhawyd ym mis Medi 2022. Cafodd y cynllun, y cydnabyddir ei fod yn gymhleth ac yn fanwl, ei raddio'n dda gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Cytunodd yr Aelodau i edrych ar y graddau pan fyddant yn cael cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu eto gan ei bod yn anodd craffu yn y fformat presennol.

Cadarnhaodd swyddogion y bydd rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys yng nghynllun eleni a fydd ar gael yn fuan. Rhoddodd yr Aelodau longyfarchiadau i swyddogion ar y graddau a gyflawnwyd.

Gofynnodd yr Aelodau am ymweliad â Safle 15. Cadarnhaodd swyddogion y bydd gwahoddiad ar ddod a bydd cyfle hefyd i ymweld â'r Prosiect Troi sy'n cael ei lansio cyn bo hir.

Holodd y Cadeirydd pa systemau sydd ar waith i gefnogi pobl ifanc ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASD) a Datblygiad Niwro-amrywiol (DNA), dywedodd y swyddog, y bydd pobl ifanc sy'n ymuno â'r gwasanaeth yn derbyn asesiad i ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a chynllunnir ymyriadau yn unol â hynny. Mae amrywiaeth o ymyriadau ar gael i gefnogi pobl ifanc, gan ddechrau gydag asesiadau iaith a lleferydd a darpariaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc ag Awtistiaeth neu syndrom Asperger. Gall pobl ifanc dderbyn ymyriad wedi'i dargedu drwy gyfeirio at Autside. Mae'r tîm yn cynnwys gweithiwr addysg sydd â mynediad at y gronfa ddata addysg lawn felly mae unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn hysbys cyn i'r person ifanc ymuno â'r gwasanaeth. Mae amrywiaeth o wasanaethau i ymgysylltu â phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, trin gwallt, cynnal a chadw beiciau, prosiectau cerddoriaeth.

Mae swyddogion wedi cofrestru ar gyfer Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu, sy'n cefnogi pobl ifanc i gwblhau cymwysterau lefel is yn ogystal ag unrhyw gymwysterau y maent yn eu cwblhau yn yr ysgol. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda phartneriaid addysg i nodi pobl ifanc yn gynharach i gynnal ymyriadau ataliol i atal pobl ifanc rhag cael eu derbyn i'r system cyfiawnder troseddol ac fel dewis arall yn lle gwaharddiadau. Mae pobl ifanc y nodir bod ganddynt angen dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi ar bob pwynt o'r broses, boed hynny yn y llys, mewn gorsaf heddlu, trwy sicrhau presenoldeb oedolyn priodol neu sicrhau bod yr heddlu'n ymwybodol o unrhyw anghenion.

Holodd yr Aelodau am faterion ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ADHD e.e. pobl ifanc yn arddangos nodweddion heb ddiagnosis. Mae rhestr aros o 3-6 wythnos ar gyfer CAHMS a 28 mis ar gyfer y Gwasanaeth Datblygiad Niwro-amrywiol. Holodd yr Aelodau a roddir apwyntiad cynharach i atgyfeiriad gan y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid? Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn derbyn unrhyw driniaeth ffafriol ar gyfer amseroedd aros. Mae pobl ifanc â nodweddion yn cael eu nodi drwy'r Therapydd Iaith

a Lleferydd a fydd yn cysylltu â'r ysgol i ddechrau ar y llwybr priodol, gan symud y llwybr ymlaen eu hunain yn aml os nad yw'r ysgol yn teimlo ei fod yn briodol.

Gofynnodd yr Aelodau beth yw'r camau nesaf pan fydd yr holl adnoddau wedi cael eu defnyddio ac mae'r person ifanc yn dal i droseddu'n helaeth. Cadarnhaodd y Swyddog fod mynediad at fodel rheoli achosion datblygedig sy'n cynnwys seicolegydd fforensig sy'n gysylltiedig â thîm arbenigol yn CAHMS, a fydd yn cynhyrchu fformwleiddiad o fywyd y person ifanc o'r cyfnod cyn geni hyd heddiw, gan weithio gyda nifer o bartneriaid ar wahanol strategaethau, mae hyn yn destun adolygiadau bob tri mis.

Holodd yr Aelodau a oedd data a dadansoddiad ar gael ar gyfer cefndir teuluoedd mewn perthynas ag alcohol a chyffuriau. Yn dilyn yr archwiliad diwethaf, dadansoddwyd pob rhan o'r gwasanaeth; ataliaeth, y biwro ac arena'r llys i ddeall cefndir y bobl ifanc i geisio deall eu hamgylchiadau, a allai eu gwneud yn fwy agored i fynd i mewn i'r gwasanaeth. Adroddir am yr wybodaeth i'r bwrdd rheoli bob chwarter ac yn flynyddol. Cyn hynny roedd y data'n feintiol ond mae bellach hefyd yn ansoddol, gwelir y plentyn yn gyntaf a'r troseddwr ifanc yn ail.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn cynnwys dyfyniad gan berson ifanc a oedd yn dweud ei fod wedi helpu i gael rhywun i siarad â nhw a'u bod wedi gwrando ar y cyngor a roddwyd, holodd yr aelodau a oedd y person ifanc wedi aildroseddu. Nid oedd modd rhoi unrhyw fanylion ond gall swyddogion gael rhagor o wybodaeth os oes angen.

Roedd yr adroddiad yn nodi 'nad yw pobl ifanc eisiau bod pobl yn siarad atynt neu'n siarad amdanynt, maent am gael eu clywed, eu credu a'u parchu'. Cwestiynodd aelodau a yw gweithwyr cefnogi hefyd yn pwysleisio bod rhaid ennill parch; mae'n berthynas ddwy ffordd. Cadarnhaodd swyddogion ei fod yn wasanaeth sy'n seiliedig ar drawma ac mae staff yn derbyn hyfforddiant llawn wrth weithio gyda phobl ifanc. Nododd swyddogion y gall pobl ifanc fod yn dioddef yn fawr o drawma ac yn ofnus iawn pan fyddant yn dod i'r gwasanaeth am y tro cyntaf.

Holodd yr aelodau am nifer y plant sy'n derbyn gofal a gofynnwyd pa gymorth ychwanegol oedd ar waith i atal plant sy'n derbyn gofal rhag troseddu ar ôl gadael gofal. Cadarnhaodd swyddogion y bydd data ynghylch faint o blant sy'n derbyn gofal sy'n troseddu yn cael ei gynnwys yn y cynllun nesaf, mae'n rhan o'r data chwarterol a bydd yn

bwydo i mewn i'r wybodaeth flynyddol. Cydnabuwyd bod plant sy'n derbyn gofal mewn mwy o berygl o gyrraedd y system cyfiawnder ieuenctid ac mae ymgyrch genedlaethol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n troseddu.

Dywedodd yr Aelodau fod Protocol Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru i leihau troseddu, yn aml nid yw aelodau'n ymwybodol o wybodaeth o'r fath. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai swyddogion yn gallu dosbarthu unrhyw wybodaeth i'r aelodau pan fydd ar gael.

Nodwyd yr adroddiad.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH 2023/2024

Bydd aelodau'n derbyn gwahoddiad i sesiwn flaenraglen waith yn fuan.

Cytunodd Aelodau’r Pwyllgor y dylid cynnwys yr eitem ganlynol ar y Flaenraglen Waith:

Grŵp Tasg a Gorffen Bondiau Effaith Arbennig

Cynigiodd y Cadeirydd Grŵp Tasg a Gorffen i drafod Bondiau Effaith Arbennig. Rhoddodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd gyngor y dylid trefnu cyfarfod ar wahân i ystyried y grŵp Tasg a Gorffen ac i gytuno arno, ac i gytuno ar gwmpas a chylch gorchwyl, gellir gwahodd swyddogion perthnasol i roi cyngor.

Cytunwyd y bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu cyfarfod i aelodau fynychu cyfarfod i ystyried y grŵp tasg a gorffen ac i gytuno arno, ynghyd â chwmpas y grŵp tasg a gorffen a'r cylch gorchwyl. Hefyd, byddant yn gwahodd y swyddogion perthnasol fel y gallant roi cyngor ar y pynciau.

## 6. EITEMAU BRYS

Gofalwyr Di-dâl

Amlinellodd swyddogion gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd er gwybodaeth. Holodd yr Aelodau pam nad yw anghenion gofalwyr yn cael eu diwallu, pam nad oes ganddynt wybodaeth ar amser a pham nad ydynt yn ymwybodol o asesiad? Roedd swyddogion yn cydnabod

nad yw'r prosesau presennol sydd ar waith mor gadarn ag y mae angen iddynt fod, mae llawer o'r gwaith yn digwydd ond nid yw'r data'n cael ei nodi.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr na ddylai aelodau fod o dan unrhyw gamargraff, mae'r awdurdod mewn sefyllfa dan bwysau o ran y gwasanaethau a ddarparwn i ofalwyr a mynegodd ei farn nad ydym eto wedi adfer o'r problemau a brofwyd yn ystod y pandemig. Mae gwaith sylweddol i'w wneud yn y maes hwn ond rhoddwyd llongyfarchiadau i'r swyddog am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Awgrymwyd y dylai adroddiad ddod yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ymhen chwe mis.

O ystyried y twf disgwyliedig dros y saith mlynedd nesaf, gofynnodd yr aelodau pa fesurau lliniaru sy'n cael eu rhoi ar waith, mae'n rhaid aros tair wythnos am frysbennu ar hyn o bryd a bydd hyn yn cynyddu. Ymatebodd y Swyddog o ran y prosiect sy'n cael ei wneud gan y Swyddog Datblygu Gofalwyr, rhan o'u rôl fydd ymgymryd â brysbennu a gweithio gyda'r gwasanaeth gofalwyr i leihau'r rhestr aros a'i monitro. Gan mai swydd brawf yw hon, bydd gwaith yn cael ei fonitro a bydd adborth yn cael ei gasglu gan ofalwyr.

Nodwyd yr adroddiad.

## 7. **<u>MYNEDIAD I GYFARFODYDD</u>**

Nid oedd angen hyn.

## 8. **<u>CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU</u>**

Nid oedd unrhyw eitemau preifat.

**CADEIRYDD**